

Hysbysiad i Ganolfannau

Canllawiau i ganolfannau ar ddadgodio symbolau a thalfyriadau unedau mewn arholiadau Mathemateg a Gwyddoniaeth

Cynhyrchwyd ar ran AQA, Cambridge OCR, CCEA, Pearson a CBAC

Gall darllenydd ddadgodio symbolau a thalfyriadau unedau mewn arholiadau Mathemateg a Gwyddoniaeth lle mae'n adlewyrchu ffordd arferol a chyfredol yr ymgeisydd o weithio yn y ganolfan.

Byddai hyn yn digwydd pan nad yw ymgeisydd ag anawsterau dysgu sylweddol yn gallu cael mynediad yn annibynnol at unrhyw ran o'r testun a'r symbolau mewn cwestiynau. Er enghraifft, ni all ymgeisydd sydd â nam sylweddol ar y golwg na all ddarllen Braille, gael mynediad at ddiagramau cyffyrddol neu, oherwydd difrifoldeb eu nam, ni all gael mynediad at y papurau safonol wedi'u haddasu a'u mwylhau.

Ystyr 'dadgodio' yw enwi'r symbol. Nid yw'n golygu esbonio pryd neu sut mae'r symbol yn cael ei ddefnyddio neu ddisgrifio'r symbol.

Enghreifftiau o ddadgodio:

356	mae'r darllenydd yn dweud 'tri chant a phum deg chwech'
CO ₂	mae'r darllenydd yn dweud 'C O dau' (gan ddarllen pob llythyren a rhif unigol)
2 ²	mae'r darllenydd yn dweud 'dau wedi'i sgwario'
≤	mae'r darllenydd yn dweud 'llai na neu'n hafal i'
∈	mae'r darllenydd yn dweud 'yn elfen o'
∞	mae'r darllenydd yn dweud 'anfeidredd'
$\sqrt[3]{}$	mae'r darllenydd yn dweud 'trydydd isradd'
θ	mae'r darllenydd yn dweud 'Theta'
∫	mae'r darllenydd yn dweud 'Integryn'

Rhaid i ganolfannau sicrhau bod darllenwyr wedi'u hyfforddi'n drylwyr a'u bod yn gallu dadgodio symbolau a thalfyriadau unedau yn gywir.